Camau

Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# CAMAU CASE STUDY: ENTRY PART 1
# ASTUDIAETH ACHOS CAMAU: MYNEDIAD 1



# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

## Gwynedd C.P. Out of School Club

Gwynedd C.P. After School and Holiday Club operates from within Gwynedd County Primary School in Flint, Flintshire and is a well-run service where children are cared for in a safe, secure and welcoming environment. They provide an Out of School Childcare Club for a maximum of 40 children between the age of three and 12 years. The business is located on an English medium school site and in an area with a large English-speaking population, Shelley Price, the director of Gwynedd After School Club, attended our Clwb Hwb in March to discuss ‘All Things Welsh’. Following our Clwb Hwb Shelley and her staff enrolled on to the Camau Entry Part 1 course and were also eager to learn more about how the Welsh Promise could benefit the setting. Elliw Pierce, Welsh Language Childcare Business Development Officer visited them in April and was pleased to witness the leadership’s and staff's enthusiasm and commitment to promoting the use of Welsh not only through the staff’s progress on the Camau course but how that training has also began influencing practice within the environment. Following the visit, Gwynedd After School Club showed their commitment to promoting the Welsh language by signing up to the Bronze Welsh Promise.

## Clwb All-Ysgol Ysgol Gynradd Sirol Gwynedd

Mae Clwb Ar ôl Ysgol a Gwyliau Gwynedd, yn gweithredu o Ysgol Gynradd Sirol Gwynedd yn y Fflint, Sir y Fflint; mae'n wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda ac lle mae plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn darparu Clwb Gofal Plant All-Ysgol ar gyfer uchafswm o 40 o blant rhwng tair a 12 mlwydd oed. Mae'r busnes wedi'i leoli ar safle ysgol cyfrwng-Saesneg ac mewn ardal boblog Saesneg ei hiaith. Fe wnaeth Shelley Price, cyfarwyddwr Clwb ar ôl Ysgol Gwynedd, fynychu ein Clwb Hwb ym mis Mawrth i drafod 'Pob Peth Cymraeg' Yn dilyn ein Clwb Hwb fe gofrestrodd Shelley a'i staff ar gwrs Rhan 1 Mynediad, Camau, ac roedden nhw hefyd yn awyddus i ddysgu mwy am sut y gallai'r Addewid Cymraeg fod o fudd i'r lleoliad. Ymwelodd Elliw Pierce, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant y Gymraeg â nhw ym mis Ebrill ac roedd yn falch o weld brwdfrydedd ac ymrwymiad yr arweinyddiaeth a'r staff i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg nid yn unig drwy gynnydd y staff ar y cwrs Camau ond sut mae'r hyfforddiant hwnnw hefyd wedi dechrau dylanwadu ar arferion yn yr amgylchedd. Yn dilyn yr ymweliad, dangosodd Clwb Ar Ôl Ysgol Gwynedd eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ymuno â'r Addewid Cymraeg Efydd.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

Throughout Gwynedd After School Club's journey on the Bronze Welsh Promise they have thoroughly worked and delved into the action plan that they developed with the support of Elliw, ensuring all aspects were covered when it comes to Welsh language development, the environment and when engaging with families. They began by including the Welsh language into their planning regularly to ensure that Welsh was truly imbedded into the day to day running of the club. They also amended their introductory paperwork like the Statement of Purpose and registration pack to be bilingual.





Trwy gydol taith y Clwb ar ôl Ysgol Gwynedd ar yr Addewid Cymraeg Efydd maent wedi gweithio'n drwyadl ac wedi ymchwilio i'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd ganddynt gyda chefnogaeth Elliw, gan sicrhau bod pob agwedd yn cael sylw o ran datblygiad y Gymraeg, yr amgylchedd ac ymgysylltu â theuluoedd. Fe wnaethant ddechrau trwy gynnwys y Gymraeg i'w gwaith cynllunio'n rheolaidd i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio mewn gwirionedd yn rhediad y clwb o ddydd i ddydd. Fe wnaethant hefyd ddiwygio eu gwaith papur rhagarweiniol megis y Datganiad o Ddiben a'r pecyn cofrestru i fod yn ddwyieithog.

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

The setting has also made a conscious effort to create a bilingual environment through their wall displays which also includes a Welsh display based around key Welsh vocabulary that staff and children would use during snack time.

Through Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Cymell project, lanyards with key Welsh vocabulary for settings to use day to day were developed to support settings embarked on The Welsh Promise and Camau. During a visit in July, Elliw presented the lanyards to all staff to enable them to practise their Welsh further themselves and with the children




Mae'r lleoliad hefyd wedi gwneud ymdrech ymwybodol i greu amgylchedd dwyieithog drwy eu harddangosfeydd wal sydd hefyd yn cynnwys arddangosfa Gymraeg yn seiliedig ar eirfa Gymraeg allweddol y byddai staff a phlant yn ei defnyddio yn ystod amser byrbryd.

Trwy brosiect Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Cymell datblygwyd llinynnau gwddf ac arnynt eiriau Gymraeg allweddol ar gyfer lleoliadau i'w defnyddio o ddydd i ddydd i'w gefnogi lleoliadau sydd wedi cychwyn ar yr Addewid Cymraeg a Camau Cymraeg. Yn ystod ymweliad ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Elliw y llinynnau gwddf i'r holl staff i'w galluogi i ymarfer eu Cymraeg ymhellach eu hunain a gyda'r plant.

After working hard on the Bronze for 6 months Gwynedd After School Club were awarded their Bronze award in September 2023.

Shelley Price noted that “the Welsh Promise had made a big impact on the use of the Welsh language at the club, and it made staff more aware of the importance of using the Welsh Language with the children and amongst each other”. The staff also stated how the Camau course has helped improve their confidence when it comes to the Welsh language describing the course as “easy and convenient”. They liked that they could access the course on their phone and “screenshot the things they needed to practise and remember.”




Ar ôl gweithio'n galed ar yr Efydd am 6 mis dyfarnwyd gwobr Efydd i Glwb Ôl-Ysgol Gwynedd ym mis Medi 2023.

Nododd Shelley Price fod "yr Addewid Cymraeg wedi cael effaith mawr ar y defnydd o'r Gymraeg yn y clwb, ac roedd yn gwneud staff yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant ac ymysg ei gilydd".

Dywedodd y staff hefyd sut mae'r cwrs Camau wedi helpu i wella eu hyder o ran y Gymraeg gan ddisgrifio'r cwrs fel un "hawdd a chyfleus". Roedden nhw'n hoffi y gallen nhw gael mynediad i'r cwrs ar eu ffôn a thynnu "llun sgrîn’ o’r pethau roedd arnynt angen eu hymarfer a’u cofio."

# Camau Case Study Entry Part 1 | Astudiaeth Achos Camau Mynediad 1

“I would definitely recommend the Camau Play course, it reminded me of what I already knew of the Welsh Language, and I found it went hand in hand with the Welsh Promise.”

Shelley Price would most definitely recommend settings that want to increase their use of Welsh to sign up to the Welsh Promise. The Welsh Promise enabled the setting to ensure that their training through Camau profoundly influenced practice.

“The step-by-step guide given by the Childcare Business Development Officer and the little changes made a big difference, we also learnt new things whilst doing the Bronze Promise.”



"Byddwn i'n bendant yn argymell cwrs Chwarae Camau Chwarae, fe wnaeth fy atgoffa o'r Gymraeg yr oeddwn i'n ei wybod eisoes, ac fe wnes ddarganfod ei fod yn mynd law yn llaw â'r Addewid Cymraeg."

Byddai Shelley Price yn bendant yn argymell lleoliadau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg i ymuno â'r Addewid Cymraeg. Galluogodd yr Addewid Cymraeg y lleoliad i sicrhau bod eu hyfforddiant drwy Camau wedi dylanwadu'n fawr ar ymarfer.

"Gwnaeth y canllaw cam wrth gam a roddwyd gan y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant a'r newidiadau bach wahaniaeth mawr, fe ddysgon ni bethau newydd hefyd wrth wneud yr Addewid Efydd."



Gwynedd After School Club have worked extremely hard to achieve their Bronze award and to complete the Camau course, with all staff who enrolled on the Entry Part 1 now complete and progressed on to Entry Part 2. Their commitment towards the Welsh language and passion to increase the use of Welsh is apparent in recent visits with the Welsh language being seen and heard more and staff proudly wearing their lanyards. The club are now looking forward to beginning their Silver award.

Mae Clwb ar ôl Ysgol Gwynedd wedi gweithio'n eithriadol o galed i ennill eu gwobr Efydd ac i gwblhau cwrs Camau, ac mae’r holl staff a gofrestrodd ar Mynediad Rhan 1 bellach wedi'u cwblhau a symud ymlaen i Fynediad Rhan 2. Mae eu hymrwymiad tuag at y Gymraeg a'u hangerdd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn amlwg mewn ymweliadau diweddar; mae’r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy a’r staff yn falch o wisgo’u llinynnau gwddf. Mae'r clwb rŵan yn edrych ymlaen at ddechrau eu gwobr Arian.

# Da iawn Gwynedd After School Club!

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

www.clybiauplantcymru.org

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

https://earlyyears.wales/

mudiad meithrin

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

https://www.meithrin.cymru/

NDNA Cymru National Day Nurseries Association

https://www.ndna.org.uk/

cwlwm

www.cwlwm.org.uk

pacey | CYMRU

https://www.pacey.org.uk/

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, Tŷ’r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW